# ADRAN PRIFFYRDD A PHEIRIANNEG
# POLISI AMGYLCHEDDOL

Mae Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn darparu nifer eang o wasanaethau hanfodol. Mae rhain yn cynnwys gweithgareddau Cynnal Priffyrdd, Rheoli a Chynnal Fflyd y Cyngor, Glanhau Strydoedd, Goleuo Stryd, Gwasanaethau Gorfodaeth Stryd, Gwasanaeth Cymunedau Glan a Thaclus, Rheoli a Chynnal Mynwentydd, Rheoli Amlosgfa a Chynnal tiroedd cyhoeddus.

Rydym yn cydnabod bod gweithgareddau'r Adran Priffyrdd yn effeithio'n uniongyrchol ar yr amgylchedd, ac mae potensial i hyn, ar brydau fod yn niweidiol. Ein nod yw lleihau neu gwaredu yr effeithiau negyddol ar yr amgylchedd a chynyddu effeithiau a dylanwadau positif, gan barhau i sicrhau gwasanaeth cyson a chynnal safonau priodol.

Rydym wedi ymrwymo i welliant parhaus yn ein perfformiad amgylcheddol. I gyflawni hyn, mae'r Adran wedi'w chymeradwyo ac yn rhedeg system reoli ISO 14001:2015 lwyddianus ac rydym yn bwriadu:

- Rheoli a monitro'r agweddau amgylcheddol arwyddocaol drwy asesu risg a chynnal archwiliadau;
- Cydymffurfio â deddfwriaethau amgylcheddol perthnasol;
- Gweithio tuag at leihau risg o niwed i'r amgylchedd;
- Ymrwymo i brosiectau sy'n edrych ar gerbydau mwy gwyrdd ac effeithlon i'r gweithlu, yn ogystal a annog ac hyfforddi gweithwyr i yrru yn effeithlon yn y gwaith.
- Lleihau gwastraff sy'n deillio o waith yr adran gan sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r hierarchaeth gwastraff – atal, ail-ddefnyddio, ailgylchu, adferiad arall, gwaredu;
- Ymrwymo i weithio tuag at dargedau amgylcheddol gan Lywodraeth Cymru e.e Net Carbon 2050 a Lleihad o 63% o ddefnydd Carbon erbyn 2030.
- Codi ymwybyddiaeth a newid diwylliant ac ymddygiad staff tuag at arbed ynni.
- Cyd weithio gyda'r gwasanaeth arbed ynni arbennig sydd yn y cyngor i geisio lleihau ein defnydd o ynni yn ein swyddfeydd a rhoi blaenoriaeth i leihau ol troed carbon.
- Gweithio tuag at dargedau amgylcheddol sydd wedi eu gosod gan yr adran.
- Ymrwymo i drefniadau sy'n gwarchod bioamrywiaeth.
- Hybu dulliau teithio cost-effeithiol sydd am leihau ei'n effaith ar yr amgylchedd;
- Rhoi blaenoriaeth i faterion amgylcheddol ym mholisïau cyfredol yr Adran.
- Sicrhau o fewn y drefn pwrcasu fod cleientiaid a hefyd unrhyw gontractwyr, is-gontractwyr neu gyflenwyr a gomisiynwyd gan yr Adran gyda rheolaeth amgylcheddol addas a pholisïau, ymarferion a systemau datblygol cynaliadwy mewn lle;
- Cefnogi datblygiad ein staff drwy sicrhau eu bod yn derbyn hyfforddiant fel y gallent gyfrannu at wireddu ein system amgylcheddol;
- Gweithredu, cynnal â chadw'r system rheoli amgylcheddol sydd yn cyrraedd safon ISO 14001:2015.

Arwyddwyd:

**Steffan Jones**
**Pennaeth Adran Priffyrdd a Peirianneg**

Arwyddwyd:

**Berwyn Parry Jones**
**Aelod Cabinet Adran Priffyrdd a Peirianneg**

Fersiwn 24/01/2023